

Disgrifio ac Egluro - Enghraifft

Dychmygwch y cwestiwn:

'Disgrifwch brif nodweddion gwasanaeth priodas Cristnogol' [5]

Mae'n debyg y byddai ateb ardderchog yn cynnwys y canlynol:

Mewn gwasanaeth priodas Cristnogol, mae'r briodferch fel arfer yn gwisgo gwyn ac yn cerdded i fyny'r eil er mwyn ymuno â'i darpar ŵr wrth yr allor. Bydd yr Offeiriad neu'r Gweinidog yn atgoffa'r gynulleidfa yn yr eglwys o bwysigrwydd priodas. Bydd y cwpl yn adrodd llwon priodas fel 'Er gwell, er gwaeth, er cyfoethoced, er tloted...hyd nes y gwahanir ni gan angau'. Caiff y modrwyon eu bendithio a'u cyfnewid. Caiff emynau eu canu, rhoddir pregeth a darllenir darnau addas o'r Beibl. Ar y diwedd, bydd yr Offeiriad neu'r Gweinidog yn datgan bod y cwpl yn 'Ŵr a Gwraig' a chaiff y contract cyfreithiol ei lofnodi.

Mae hwn yn ateb ardderchog a manwl iawn sy'n defnyddio iaith grefyddol wych i **ddisgrifio'r** seremoni briodasol ac mae'n cyfeirio at ffynonellau doethineb ac awdurdod.

Dychmygwch y cwestiwn:

'Eglurwch sut mae gwasanaeth priodas Cristnogol yn dangos credoau a dysgeidiaethau Cristnogol am briodas [8]

Mae'n debyg y byddai ateb ardderchog yn cynnwys y canlynol. Mae'r rhannau sy'n ei wneud yn esboniad yn hytrach na disgrifiad wedi'u **hamlygu**:

Mewn gwasanaeth priodas Cristnogol, mae'r briodferch fel arfer yn gwisgo gwyn **am fod hyn yn dangos pwysigrwydd purdeb a diweirdeb mewn Cristnogaeth**. Mae'r Beibl yn ein haddysgu hyn, 'Bydded priodas mewn parch gan bawb, a'r gwely yn ddihalog'. Bydd yr Offeiriad neu'r Gweinidog yn atgoffa'r gynulleidfa bod Priodas yn sanctaidd ac yn uniad parhaol **am fod y Beibl yn dweud**; 'Bydd dyn yn gadael ei dad a'i fam ac yn glynu wrth ei wraig a bydd y ddau yn yr un cnawd'. Rhaid i'r cwpl adrodd llwon pwysig **er mwyn dangos eu hymrwymiad**; 'Er gwell, er gwaith, er cyfoethoced, er tloted'. Mae'r Beibl yn addysgu 'Felly yr hyn a gysylltodd Duw, peidied neb ei wahanu' **felly er mwyn dangos hyn** mae'r cwpl hefyd yn addo bod yn briod 'hyd nes y gwahanir ni gan angau'. Caiff y modrwyon eu bendithio a'u cyfnewid am eu bod yn symbol cylchol o'r syniad Cristnogol bod cariad yn para am byth. **Caiff emynau eu canu er mwyn dangos mai dathliad Cristnogol yw hwn** a bydd y bregeth a'r darlleniadau o'r Beibl yn atgoffa'r gynulleidfa bod priodas yn uniad crefyddol yn ogystal ag yn bartneriaeth sifil. Byddai'r seremoni mewn eglwys Gatholig hefyd yn cynnwys dysgeideithiau Eglwysig bod priodas yn Sacrament (arwydd allanol o ras dwyfol) a gallai'r gwasanaeth priodas fod yn rhan o ddathliad ehangach o'r Offeren.

Mae hwn yn ateb ardderchog a manwl iawn sy'n defnyddio iaith grefyddol wych i **egluo** sut y caiff credoau a dysgeideithiau Cristnogol eu dangos yn y seremoni briodasol. Ceir cyfeiriadau ardderchog at ffynonellau doethineb.